COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 11 GORFFENNAF 2019, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | P Davies | DK Edwards | JR McCarthy |
| RMI Shaw | RME Stirman | G Thomas | MC Voisey |
| JE Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DRW Lewis a/ac E Venables

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Sarah Daniel | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Michael Jenkins | Arweinydd Tîm Datblygu Cynaliadwy |
| Denis Richard | Pennaeth Rhaglenni Mawr - Catapwlt Systemau Ynni |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Ieuan Sherwood | Rheolwr Grwp Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd |
| Paul Smith | Rheolwr Datblygu Rhanbarthol - Cymru - Catapwlt Systemau Ynni |

79. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

80. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y 25/02/2019 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y 18/03/2019 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod yn amodol ar y newidiadau canlynol:

Roedd y Cynghorydd Rod Shaw, y Cynghorydd Roz Stirman, a'r Cynghorydd Norah Clarke yn bresennol yn y cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd Paul Davies yn bresennol yn y cyfarfod a rhoddodd y Cynghorydd Pam Davies ymddiheuriadau am absenoldeb

81. Y DIWEDDARAF AM Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu ddiweddariad y flaenraglen waith i'r Aelodau a thynnodd sylw at yr eitemau a ddirprwywyd i'r Aelodau ar gyfer eu dau bwyllgor nesaf.

PENDERFYNWYD: Ar ôl trafod, gofynnodd yr Aelodau am gael cyflwyno'r eitem am y cerbyd gorfodi yng nghyfarfod mis Tachwedd, ar yr un pryd â'r adroddiad ar Briffyrdd.

82. ADRODDIAD ADBORTH TROSOLWG A CHRAFFU

PENDERFYNWYD: Nododd yr Aelodau yr ymatebion a ddaeth i law. Gofynnodd yr Aelodau i bob statws RAG sy'n goch neu'n ambr fod â gweithred ddilynol ar ôl 6 mis, fel bo'r Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd pethau'n parhau â'r argymhelliad.

83. ENWEBIAD I BANEL CRAFFU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

PENDERFYNWYD: Enwebwyd y Cynghorydd David Lewis fel cynrychiolydd i Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

84. ADRODDIAD AR ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

PENDERFYNWYD: Enwebwyd y Cynghorydd David White yn wahoddai i Bwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol

85. STRATEGAETH YNNI ARDAL LEOL SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR A CHYNLLUN YNNI CLYFAR

Croesawodd y Cadeirydd y gwahoddedigion i'r cyfarfod a diolchodd i'r gwahoddedigion allanol am deithio i fynychu'r Pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol adroddiad i'r Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni Strategaeth Ynni Ardal Leol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cynllun Ynni Clyfar. Atgoffodd yr Aelodau fod y Cabinet wedi cymeradwyo bod yn rhan o'r rhaglen SSH ar 3 Chwefror 2015 a bod Pen-y-bont ar Ogwr yn un o'r tri Awdurdod Lleol a gymerodd ran yn y prosiect peilot.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau i gynrychiolwyr yr Energy Systems Catapult am fynychu'r cyfarfod ac am eu cyfraniad amhrisiadwy i'r prosiect hyd yma. Dywedodd mai Pen-y-bont ar Ogwr oedd yr unig Awdurdod Lleol i gynhyrchu Strategaeth Ynni Ardal Leol. Ychwanegodd y byddai gwaith yn y dyfodol gyda Choleg Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn datblygu rhaglenni prentisiaethau ac y byddai cydweithio hefyd yn y dyfodol gydag Awdurdodau Lleol Bury a Newcastle, a oedd hefyd yn rhan o'r rhaglen beilot

Mewn ymateb i bryderon yr Aelodau bod y cynllun yn rhy uchelgeisiol, atebodd y swyddogion y byddai angen i'r cyhoedd brynu'r cynllun ond y rhoddid dewis i ddefnyddwyr, ac na fyddai'r cyhoedd yn cael eu gorfodi i wneud newidiadau i'w systemau gwresogi, a bod nifer o ffyrdd eraill na fyddai'n gostus y gallent wneud gwahaniaeth.

Nododd un aelod y mater y gallai Cynllun Gwres Dŵr Cloddfeydd Caerau fod yn anodd ei werthu i'r cyhoedd gan fod rhai trigolion yng Nghaerau yn dal i ddioddef canlyniadau inswleiddio eu heiddo, pan fu llawer o broblemau gydag ansawdd y gwaith a lleithder yn yr eiddo yn sgil hynny. Cafodd y contractwr a oedd yn gwneud y gwaith ei ddiddymu heb wneud iawn am yr eiddo yr effeithiwyd arno. Ymatebodd y swyddog gan ddweud bod gwersi wedi'u dysgu ac y byddai dull gwahanol yn cael ei ddefnyddio y tro hwn o ran rheoli ansawdd.

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau ei bod yn hanfodol fod pawb a oedd yn gallu lleihau eu hôl troed carbon yn gwneud hynny. Fel corff cyhoeddus mawr, roedd CBSP mewn sefyllfa i arwain y ffordd ac annog y cyhoedd i gyfrannu hefyd.

Mynegodd rhai Aelodau bryder mai nad hyn oedd y defnydd gorau o arian ar adeg pan oedd yr Awdurdod yn gorfod gwneud toriadau anffafriol mewn cyfnod o galedi. Atebodd yr Aelodau Cabinet dros Gymunedau fod angen i'r Awdurdod fuddsoddi mewn storio trydan a diogelu'r ffordd y mae pobl yn cynhesu eu cartrefi yn y dyfodol. Ychwanegodd fod pobl yn agored i newid os ydynt yn deall y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, ac os ydynt yn ymwybodol o sut maent yn diogelu'r blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gofynnodd Aelod a oedd yr Awdurdod yn rhannu arferion gorau gyda'r 2 Awdurdod lleol arall a oedd yn rhan o'r cynllun peilot. Ymatebodd y Swyddog drwy ddweud bod adolygiadau misol yn cael eu cynnal gyda phob un o'r Awdurdodau Lleol dan sylw.

**Argymhellion:**

Argymhellodd yr Aelodau y dylid cyflwyno papur briffio i bob aelod o'r Cyngor, a hynny cyn i'r Cyngor gychwyn, gan fod y mater hwn yn effeithio ar bob aelod a'u hetholwyr.

86. EITEMAU BRYS

Mynegodd yr Aelodau bryderon am y ffaith bod lai o adnoddau o fewn y tîm Gwasanaethau Democrataidd a nodwyd nad neb wedi cymryd lle dau aelod o staff wedi iddynt adael eu swyddi. Nodwyd pryderon ganddynt fod y Swyddog Craffu bellach yn gorfod cymryd cofnodion yn y Pwyllgorau a'u bod yn pryderu bod hyn yn defnyddio adnoddau gwerthfawr a allai fod wedi'u defnyddio gan y tîm i'w galluogi i wneud gwaith ymchwil ystyrlon. Nodwyd hefyd bod sawl camgymeriad wedi bod yn y setiau diwethaf o funudau

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cyflwyno hyn yn y Pwyllgor Corfforaethol nesaf. Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf gan y swyddog monitro ynglŷn â'r canlynol:

- Pa bryd fydd yr adolygiad o waith Craffu yn cael ei gynnal a'i gwblhau
- Beth oedd y cynllun ar gyfer recriwtio/amnewid staff gwasanaethau democrataidd a oedd wedi gadael eu swyddi
- Gofynnodd yr Aelodau i'r mater gael ei grybwyll yn CMB hefyd
- Gofynnodd yr Aelodau i'r mater gael ei grybwyll yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd nesaf

Daeth y cyfarfod i ben am 11:45